Hoffai Cyngor Sir y Fflint glywed eich barn am gynigion i sefydlu isadeiledd Teithio Llesol (cerdded a beicio) ar ddau o lwybrau yn Nhreffynnon. Mae Llwybr 1 yn mynd i Ysgol Gynradd Gwenffrwd ac Ysgol Gynradd Gatholig Santes Gwenffrewi a Llwybr 2 yn mynd i Ysgol Treffynnon ac Ysgol Maes y Felin.

Mae'r cynigion yn seiliedig ar astudiaeth a gynhaliwyd gan ymgynghorwyr yn 2022 lle nodwyd llwybrau allweddol i bob ysgol yn seiliedig ar ble mae'r disgyblion yn byw yn ogystal ag ymweld â'r safle, bwrw golwg ar broblemau y mae pobl sy'n cerdded a beicio yn eu hwynebu a chael trafodaethau gyda rhai o'r ysgolion.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi braslun o'r cynigion ar gyfer **Llwybr 1 – Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol Santes Gwenffrewi**

Mae Llwybr 1 yn dilyn yr A5026 o Ffordd Holway i ganol Treffynnon, gan ymuno â Whitford Street a Heol Fawr trwy ganol y dref. Mae'r llwybr yn canghennu i gysylltu Canolfan Hamdden Treffynnon a Victoria Place ar hyd yr A5026. Nid yw'r llwybr presennol yn un hwylus i gerdded a beicio ar ei hyd gan fod cyffyrdd llydan yn ei gwneud yn anodd i gerddwyr groesi'n ddiogel ac mae diffyg lleoedd parcio i rieni sy'n mynd â'u plant i'r ysgol. Nod y cynigion yw gwella amodau i gerddwyr a beicwyr trwy ostwng cyflymder traffig, rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a lledu'r troedffyrdd.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gorolwg ar y cynigion a'r ymyriadau allweddol ar gyfer Llwybr 1, gan ddechrau o du'r gorllewin:


**Ffordd Holway**

- Mae'r gwaith arfaethedig yn dechrau yng nghyffordd Moor Lane a Ffordd Holway ac yn mynd i'r dwyrain tua chanol y dref.
- Bwriedir tynhau ffyrdd ochrol ac ychwanegu cyrbau is a phalmant botymog er mwyn galluogi cerddwyr i groesi'n haws ac yn fwy diogel;
- Lledir y droedffordd ar ochr ogleddol yr A5026 i'w gwneud yn brafiach cerdded y ffordd honno a chulhau'r ffordd gerbydau ar hyd y llwybr er mwyn annog pobl i arafu eu cerbydau a'u galluogi i weld yn well;
- Ceir gwared ar fannau parcio ar y stryd ar hyd Ffordd Holway lle nad oes mannau parcio oddi ar y stryd ar gael, ac efallai y pennir cyfyngiadau er mwyn atal pobl rhag parcio'n amhriodol hyd y gyffordd â Whitford Street;
- Gellid cynnwys llain glustogi rhwng y droedffordd a'r ffordd gerbydau lle mae digon o le, oddeutu'r man lle mae'r terfyn cyflymder yn newid i 40mya gerllaw'r rheolwr nwy ar ochr ogleddol Ffordd Holway.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gorolwg ar y cynigion a'r ymyriadau allweddol ar gyfer Llwybr 1, gan ddechrau o du'r gorllewin:

**Cyffordd Ffordd Holway / Whitford Street a Whitford Street**

- Gellid tynhau cyffordd Holway Road / Whitford Street (yn amodol ar olrhain hynt cerbydau) a chyflwyno planhigion / gerddi glaw i greu porth i arafu cerbydau ac atal gyrwyr rhag parcio ar y palmant gerllaw'r orsaf dân;
- Lledu'r droedffordd ar ochr ogleddol Whitfield Street hyd y lôn ochr sy'n mynd i Ysgol Gynradd Gatholig Santes Gwenffrewi a chulhau'r ffordd gerbydau lle mae digon o le;
- Ehangu ymyl y cyrbiau ar hyd y tro y tu allan i Ysgol Santes Gwenffrewi a chulhau'r ffordd gerbydau fel y gall pobl weld yn well ac i annog pobl i arafu eu cerbydau;
- Uwchraddio'r groesfan bresennol sydd heb ei rheoli trwy osod croesfan sebra a chyflwyno planhigion / gerddi glaw a chyfyngiadau parcio y tu allan i Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol Gwenffrewi i annog cerbydwyr i arafu a'i gwneud yn haws i groesi'r ffordd;
- Mae'r cynigion yn cynnwys ffurfioli'r mannau parcio ar yr ochr ddeheuol a'u neilltuo i ddeiliaid trwyddedau yn y tai cyfagos yn unig, a phlannu planhigion rhyngddynt a'r droedffordd;
- Israddio'r lôn ochr sy'n mynd i Ysgol Santes Gwenffrewi er mwyn atal pobl rhag parcio'n amhriodol a'i gwneud yn fwy diogel i groesi o'r dwyrain.




Nes bo Cymeradwyaeth Dechnegol yn cael ei rhoi gan yr Awdurdodau Lleol neu Gyrff Statudol perthnasol, dylid deall bod yr holl ddarluniau yn cael eu cyhoeddi fel rhai rhagarweiniol ac NID ar gyfer Adeiladu. Pe bai'r Contractwr a / neu'r Cyflogwr yn dechrau gwaith cyn i gymeradwyaeth gael ei rhoi, byddai hynny'n gyfan gwbl ar eu menter eu hunain

CYNLLUN RHAGARWEINIOL

Ar gyfer sylwadau ac adolygu'n unig.
Mae'r dyluniad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.
Mae'r dyluniad yn destun adolygiad llawn wrth i wybodaeth ychwanegol ddod i'r amlwg.
Mae'r dyluniad yn destun adolygiad llawn ar ôl derbyn sylwadau gan,

- Rheoli Datblygu
- Awdurdod Cynllunio'r Awdurdod Lleol
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Adran Priffyrdd yr Awdurdod Lleol
- Ymgymerwr carthffosiaeth


# NODIADAU

Mae'r darluniau wedi'u cynhyrchu gyda chyfeiriad at Reoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015. Sylwch bod y rhain yn ddarluniau cyn adeiladu a dylent fod yn amodol ar reolaeth risg dylunio pellach sy'n ofynnol yn unol â Rheoliad 9.

1. Peidiwch â graddio yn ôl y dyluniad.
2. Mae'r dimensiynau wedi eu dangos mewn metrau oni nodir yn wahanol.
3. Nid yw'r darluniau ar gyfer pwrpas adeiladu, ac mae angen eu datblygu ymhellach fel rhan o ddyluniad manwl.
4. Mae'r dyluniad ar sail data mapio Arolwg Ordans gan Gyngor Sir y Fflint, (enw ffeil: 'OS_Mastermap_All layers_additional schools'.dwg). Nid yw'r rhif trwydded na'r dyddiad prynu yn hysbys.
5. Mae'r wybodaeth am ffiniau priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi'i lawrlwytho fel delwedd o wefan Cyngor Sir y Fflint, a'i hail-greu gan ddefnyddio Mapiau Arolwg Ordans, delweddau awyrol a/neu amcangyfrif lle nad oes llinell neu nodwedd amlwg i'w dilyn.
6. Pwrpas y darlun yw datblygu argymhellion y dyluniad cychwynnol ar gyfer Llwybr 1 a phrofi'r egwyddorion dylunio cysyniad ar gyfer gwaith gwella priffyrdd i ddarparu llwybrau mwy diogel i'r gymuned leol i ddwy ysgol gynradd ac amwynderau lleol o fewn y dref (h.y. y Stryd Fawr, canolfan hamdden a depo bysiau).
7. Mae'r dyluniad yn seiliedig ar arsylwadau o ymweliad safle a mesuriadau lleol ar y safle i ddilysu a hysbysu'r cynigion. Fodd bynnag, gallai hynny newid wrth greu'r dyluniad manwl a bydd yn cael ei fireinio ymhellach pan fydd gwybodaeth ar gael o arolwg topograffig ac arolwg manwl penodol i safle, a bydd angen adolygiad mwy manwl o lefelau, cwympiadau croes, llinellau coron, cyfleustodau, geometreg presennol, amodau tir, arolwg cyflymder ATC a llif traffig ac ati. Mae anghysondeb rhwng Arolwg Ordans a mesuriadau ar y safle wedi eu nodi.
8. Roedd y gwaith a'r egwyddorion yn canolbwyntio ar ledu troedffyrdd, culhau ffyrdd cerbydau i annog arafu cyflymder gan ganiatáu i gerbydau mawr basio gyda gofal ar yr un pryd, ail-leoli lleoedd parcio rhieni i'r maes parcio 'parcio a theithio' a nodi cyfleoedd plannu / tirlunio i wella bioamrywiaeth.
9. Roedd y dyluniad yn cynnwys ystyried cyfyngiadau gorfodi cyflymder i 20mya (sy'n 30mya ar hyn o bryd) a fydd yn cael ei orfodi ym mis Medi 2023. Bydd graddau'r gostyngiadau mewn cyflymder yn amodol ar gadarnhad gan Gyngor Sir y Fflint cyn y gwaith dylunio manwl.
10. Bydd strategaeth arwyddion yn cael ei hadolygu wrth greu'r dyluniad manwl.
11. Mae gofyn am ddata arolwg topograffig ar gyfer camau pellach o'r dyluniad i ddilysu dyluniad alinio a phroffiliau trawstoriad arferol, gydag asesiad llwybrau ysgubo manwl. At ddiben dylunio cysyniad, ystyriwyd symudiad dau gerbyd HGV ar yr un pryd ar hyd y llwybr a thybiwyd bod cerbyd bws ysgol yn fan banel 7.5T.
12. Mae'r dyluniadau yn ystyried canllaw Deddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021) Llywodraeth Cymru ac yn unol â Llawlyfr ar gyfer Strydoedd (2007).
13. Dylid cyfeirio at lun rhif 06953-CI-C-0014 am groestoriadau arferol ar hyd Llwybr 1.
14. Gorchmynion rheoleiddio traffig cyfyngiadau parcio i gael eu hystyried ar hyd y llwybr (h.y. llinellau melyn dwbl) i atal camddefnyddio parcio a rhwystrau posibl i'r brifffordd.
15. Mae'r cynigion a amlinellwyd yn amodol ar Archwiliadau Diogelwch y Ffyrdd a thrafodaethau gyda'r awdurdod cynllunio a phriffyrdd lleol i gytuno ar baramedrau dylunio ac athroniaeth.
16. Bwriedir i'r holl waith fod o fewn ffin y brifffordd.
17. Parcio eiddo yn ardal y gwaith arfaethedig i gael ei gadarnhau cyn creu'r dyluniad manwl.
18. Ail-wynebu arfaethedig mewn ardaloedd gwella priffyrdd, maint i gael ei asesu wrth greu'r dyluniad manwl.

# CYNLLUN O'R LLEOLIAD

NID YW'R DARLUN I RADDFA




| ADOLYGIAD | DYDDIAD | NODYN ADOLYGU | ERBYN |
|---|---|---|---|
| P01 | 31.08.23 | Cyhoeddiad Cyntaf | JAL |

PJA
Birmingham · Bryste
Caergrawnt · Llundain
Manceinion · Reading
Melbourne · Perth
pja.co.uk

CLEIENT
Cyngor Sir y Fflint

PROSIECT
Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned Treffynnon

TEITL DARLUNIAD
Llwybr 1 Gwaith Gwella'r Briffordd
Trefniant Cyffredinol
Taflen 3 o 3

STATWS RHIFYN DARLUNIAD
GWYBODAETH

| PJA RHIF Y GWAITH | IS-GOD | RHIF DARLUNIAD | ADOLYGIAD |
|---|---|---|---|
| 06953-CI- | C - | 0013 - | P01 |

Llythyr Adolygu: P - Rhagarweiniol / A - Cymeradwyo / T - Tendr / C - Adeiladu

CYFEIRNOD DARLUN MODELU GWYBODAETH ADEILADU (BIM)

| GRADDFA | LLUNIWYD | ADOLYGWYD | DYDDIAD |
|---|---|---|---|
| A1@1:500 | JAL | NW | Awst'23 |

Hawlfraint© Phil Jones Associates Ltd / PJA Civil Engineering Ltd

Mae’r ddogfen hon yn rhoi gorolwg ar y cynigion a’r ymyriadau allweddol ar gyfer Llwybr 1, gan ddechrau o du’r gorllewin:

**Whitford Street i’r gyffordd â New Road**

- Plannu planhigion mwy deniadol a dynodi man parcio anffurfiol wrth y gyffordd rhwng Whitford Street a Heol Fawr a thynhau’r ffyrdd ochrol;
- Dynodi man parcio a cherdded ffurfiol ym maes parcio Eglwys Gwenffrewi gan gynnwys llwybr newydd i gerdded i/o’r maes parcio;
- Croesfan sebra ar New Road yn agos at y gyffordd â’r A5026 Rue Street Gregorie (yn amodol ar gyfrifiadau a modelau traffig);
- Gwella’r llwybr i gerddwyr rhwng Heol Fawr a Chanolfan Hamdden Treffynnon;
- Gwella’r llwybr i gerddwyr ar draws Victoria Place at y groesfan bresennol â signalau.

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys trawstoriadau o broffiliau nodweddiadol coridorau’r priffyrdd ar Ffordd Holway a Whitford Street ar hyd Llwybr 1, gan ddechrau o du’r gorllewin:

- Mae Adran A gerllaw Llain 71 ar ochr ogleddol Ffordd Holway ac mae’n dangos bod y ffordd gerbydau wedi’i chulhau (hyd 6.8 metr) a’r droedffordd wedi’i lledu ar yr ochr ogleddol, a’r lled yn amrywio;
- Mae Adran B gerllaw Dee Villa ar ochr ogleddol Ffordd Holway ac mae’n dangos bod y ffordd gerbydau wedi’i chulhau (hyd 6.8 metr) a’r droedffordd wedi’i lledu ar yr ochr ogleddol, a’r lled yn amrywio;
- Mae Adran C gerllaw Gwenys ar ochr ogleddol Ffordd Holway ac mae’n dangos bod y ffordd gerbydau wedi’i chulhau (hyd 6.8 metr) a bod lle i barcio ar y stryd os yw’n angenrheidiol, yn rhannol ar y droedffordd ac yn rhannol ar y ffordd gerbydau ar yr ochr ogleddol;
- Mae Adran D ar Ffordd Holway gerllaw lôn ochr Gwel Afon, ac mae’n dangos bod y ffordd gerbydau wedi’i chulhau (hyd 7.3 metr) a’r droedffordd wedi’i lledu i 3 metr, ac y gellid gosod llain galed i wahanu’r droedffordd a’r ffordd gerbydau a’i lled yn amrywio, lle mae yno le ar yr ochr ogleddol;
- Mae Adran E gerllaw Bryn Beuno ar ochr ogleddol Whitford Street ac mae’n dangos y droedffordd ar yr ochr ogleddol (o leiaf 2 fetr), y ffordd gerbydau bresennol a’i lled yn amrywio, a’r llain galed;
- Mae Adran F y tu allan i Ysgol Gynradd Gatholig Santes Gwenffrewi a Thŷ Clyd ac mae’n dangos bod y ffordd gerbydau wedi’i chulhau a’i lled yn amrywio, bod gwelyau planhigion / tirlunio ar yr ochrau gogleddol a deheuol a’u lled yn amrywio, bod y droedffordd wedi’i lledu (2.5-3 metr) ar yr ochr ogleddol a llwybr ar yr ochr ddeheuol (1.2 metr) y tu ôl i’r gwelyau planhigion;
- Mae Adran G y tu allan i Ysgol Gynradd Gatholig Santes Gwenffrewi a Llain 46 ac mae’n dangos bod y ffordd gerbydau wedi’i chulhau (hyd 6.8 metr), bod yno gilfach i’r bws ysgol (2.5 metr o led) a bod y droedffordd wedi’i lledu (2.5-3 metr) ar yr ochr ogleddol; cynigir naill ai gwelyau planhigion / tirlunio neu gilfach barcio (2 fetr) gyda llwybr (1.2 metr) y tu ôl iddynt ar yr ochr ddeheuol.